

**CYLCHLYTHYR WYTHNOSSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.**

**WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING: 06.03.20**

**EISTEDDFOD CYLCH YR URDD DISTRICT EISTEDDFOD.**

Bu nifer o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn gwahanol gystadlaethau ar lwyfan Eisteddfod Cylch Yr Wyddgrug ddydd Sadwrn diwethaf. Daeth nifer dda o wobrau i ran yr ysgol, a bydd y rhai ddaeth yn gyntaf ac yn ail yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Rhanbarth Flint Wrecsam ddiwedd y mis. Pob dymuniad da iddynt oll.

*A large number of the pupils represented the school in various stage competitions at the District Urdd Eisteddfod last Saturday. A large number of prizes were won, and those who were awarded first and second prizes will go forward to compete at the Flint Wrexham Regional Eisteddfod at the end of the month. Every good wish to them all.*

**GLAN LLYN**

Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 4 eu hunain yn fawr yn ystod eu harhosiad yng Ngwersyll yr Urdd, Glan Llyn o ddydd Llun i ddydd Mercher yr wythnos hon. Bu iddynt wneud amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn ystod y tridiau, a chawsant oll amser i'w gofio.

*Year 4 pupils very much enjoyed themselves during their stay at the Urdd camp in Glan Llyn during this week. They participated in a variety of activities during the three days, and they all had a memorable time.*

**YMWELIAD Â TECHNIQUEST – VISIT TO TECHNIQUEST.**

Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 3 ddiwrnod diddorol yng Nghanolfan Techniquest ddydd Mawrth. Bu iddynt wneud amrywiaeth o weithgareddau a mwynhau'r cyfan yn fawr.

*Year 3 pupils spent an interesting day at the Techniquest Centre on Tuesday. They did a variety of activities using different resources during the day, and very much enjoyed the experience.*

**CYSTADLEUAETH DIWRNOD Y LLYFR – BOOK DAY COMPETITION.**

Gwelwyd lluniau llawn dychymyg yn ein cystadleuaeth Diwrnod y Llyfr ac roeddent oll yn werth eu gweld. Diolch i bawb am gystadlu a llongyfarchiadau calonnog i'r rhai a enillodd wobrau yn y gwahanol ddsbarthiadau.

*Photos showing a great deal of imagination were seen in the Book Day competition and they were all worth seeing. Many thanks to everyone who competed and congratulations to all the class prize winners.*

**DATHLIADAU GŴYL DDEWI – ST DAVID CELEBRATIONS.**

Cawsom gyfle yn ystod yr wythnos i ddathlu Gŵyl Ddewi trwy wneud gwahanol weithgareddau yn y dosbarthiadau. Mwynhawyd cinio Gŵyl Ddewi arbennig ddydd Llun

hefyd. Parhawyd gyda'r dathliadau yn ein Heisteddfod Lenyddol heddiw. Llongyfarchiadau calonnog i'r rhai ddaeth i'r brig ymhob blwyddyn ysgol, ac i Seren enillodd y gadair, a Beca ddaeth yn ail ac Erin ddaeth yn drydydd. Roedd pawb yn edrych yn arbennig o ddeniadol yn eu gwisgoedd oedd yn cynrychioli Cymru iddynt heddiw a dydd Llun.

*During the week, we've had an opportunity to celebrate St David's Day by doing various activities in the classes. A special lunch was prepared on Monday. The celebrations continued in our Literary Eisteddfod today. Many congratulations to the winners of the various categories, and to Seren, who won the chair, with Beca coming second and Erin who was placed in third place. The pupils looked wonderful in clothes representing Wales for them both today and Monday.*

#### **TAITH YR IAITH.**

Cafwyd perfformiad cofiadwy gan Llion Williams, yr actor Cymraeg enwog, yn olrhain hanes yr iaith Gymraeg, ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6 bore ddoe. Mwynhawyd y cyflwyniad bywiog yn fawr iawn.

*A memorable performance was given by Llion Williams, the famous Welsh actor, giving the history of the Welsh language, for Years 5 and 6 pupils yesterday morning. The enthusiastic presentation was much enjoyed.*

#### **BINGO'R PASG – EASTER BINGO.**

Mae Ffrindiau Glanrafon yn trefnu Bingo Pasg ar gyfer **dydd Sul, Mawrth 29ain. o 4-7p.m.yng Nghlwb Rygbi Yr Wyddgrug.** Er mwyn cael gwobrau ar gyfer yr achlysur, gofynnir i'r disgyblion ddod i'r ysgol yn eu dillad eu hunain **ddydd Gwener, Mawrth 20fed.** a chyfrannu ŵy neu rodd Pasg am gael gwneud hynny.

*The Friends of Glanrafon are organising an Easter Bingo to take place on **Sunday, March 29<sup>th</sup>. from 4-7 p.m.** at the **Mold Rugby Club.** In order to obtain prizes for the event, the pupils are asked to come to school in their own clothes on **Friday, March 20<sup>th</sup>.** and contribute an Easter egg/gift for doing so.*

#### **DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – NEXT WEEK'S EVENTS.**

- 10&11.03.20** Pnawniau Agored – *Open Afternoons* – 3.30 – 5.30 p.m.
- 10.03.20** Gŵyl Gymnasteg Ysgolion Cymraeg Sir y Fflint (i Flwyddyn 4) – *Flintshire Welsh schools gymnastics festival (for Year 4).*
- 10.03.20** Lluniau Sul y Mamau yn y Leader – *Mother's Day pictures in the Leader.*
- 13.03.20** Cystadleuaeth CogUrdd Rhanbarthol ym Maes Garmon – *CogUrdd Regional competition at Maes Garmon.*

#### **BWYDLEN YR WYTHNOS NESAF – NEXT WEEK'S MENU.**

#### **WYTHNOS/WEEK 1.**